



Cyngor Cymuned Pennal Council

01654791235/07908654730

Gogarth Hall Farm
Pennal,

Cofnodion Pwyllgor 16-05-22

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Aled Rees a Dewi Owen

Aethpwyd trwy y Cofnodion

Materion yn Codi

Dathlu'r Jiwbilî

Trafodwyd y dathlu a darllen llythyr Rebeca Wilkes un sydd yn trefnu y parti dathlu.

Wedi gwneud ymholiadau roedd y Cyngor wedi inswrio fel gall fyny i 500 o bobol fod yn bresennol yn y parti er mwyn diogelwch penderfynwyd cai y ffordd or bont at Ffordd Tower ar ffordd ger yr hen gapel Methodistaidd yn unol fel y gwnaethpwyd or blaen 25ain yn ôl, roedd angen rhoi gwybod y drigolion y Marian am y penderfyniad er mwyn iddynt ferdu paratoi o flaen llaw, mae diogelwch pawb yn hanfodol bwysig ir diwrnod fod yn llwyddiant a cael ei gynnal yn ddiogel a dim ond am rhai oriau fydd y dathlu.

Roedd y cadeirydd wedi bod yn trafod archebu mygiau ir dathlu gyda'r ysgol pasiwyd i wneud hyn 22 o mygiau wedi eu dylunio yn y Gymraeg a dau Saesneg penderfyniad y rhieni oedd dewis ei iaith ar y mygiau ir plant ei hunain, roedd y Cyngor yn ymfalchïo yn yr ymateb yma.

Hen Fynwent yr Eglwys

Wedi cael trafodaethau gan Hugh Ransbotham Uwch swyddog yr Eglwys ym Mhennal penderfynwyd anfon llythyr ato yn rhoi cynnig os gaiff y coed enfawr sydd yn y fynwent eu torri gan yr eglwys yn fe fyddair Cyngor yn cysodro cymryd y fynwent dan ei gofal. Gofynnwyd ir llythyr gael anfon ymlaen i'r Esgobaeth yn Bangor er mwyn cael sortio'r broblem.

Angen torri gwair yn yr hen fynwent fe fydd ymholiadau pellach yn cael ei gwneud

Gofynnwyd i Barry Griffiths i adnewyddir coed ar y set ger y Gofgolofn.

Menter y Glan

Deallwyd maer camau nesaf ir fenter ydi cynnal Pwyllgor Cyhoeddus yn fuan.

Cynigiwyd gan Rhys Parry ag eiliwyd gan William Rees bod y cofnodion yn gywir.

Gofynnodd James Brunton ar ran trigolion y Marian a oedd modd llenwi tyllau ar y maes parcio cytunwyd i wneud hyn cynigiodd William Rees wneud y gwaith.

Tynnwyd sylw y cyngor at dwy goeden sydd wedi cwmpo ir afon Sychan byddair tîrfeddiannwr yn edrych mewn ir broblem.

Insiwrans cytunwyd i dalu Zurich £441-18 am y flwyddyn 2022-23.



Cyngor Cymuned Pennal Council

Derbyn y cyfrifon 2021-2022 yn unfrydol cytunwyd i'w harchwilio ai hanfon at
Luned Fôn Jones Archwilydd Mewnol Cyngor Gwynedd

Cynigiwyd gan James Brunton ag eiliwyd hyn gan William Rees

Arwyddwyd y dogfennau gan Y cadeirydd ar clerch 16-05-2022

Cyfrifon Blwyddyn 2019-20 a 2020-21 derbyniwyd gwybodaeth gan Deryck Evans Archwilydd
Allanol bod y cyfrifon wedi ei gorffen ai derbyn yn gywir.